**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU: Rheoliadau Addysg (Trefniadau Sefydlu ar gyfer Athrawon Ysgol) (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020 (O.S. 2020/623 (Cy. 143))**

**Pwynt craffu technegol 1:**

Mae'r Pwyllgor wedi codi dau bwynt mewn perthynas â drafftio rheoliad 7A.

(i) Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno nad yw 'sesiynau dysgu proffesiynol' wedi cael ei ddiffinio. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes angen iddo gael ei ddiffinio. Dylid ei ddehongli yn unol â'i ystyr cyffredin.

Defnyddiwyd y term mewn nifer o eitemau o ddeddfwriaeth Cymru heb ddiffiniad. Er enghraifft, Rheoliadau Addysg (Diwygiadau sy'n Ymwneud â Gwybodaeth Asesiadau Athrawon) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/766) a ddiwygiodd Reoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 er mwyn dileu cyfeiriadau at "datblygiad proffesiynol" a "datblygu proffesiynol" a mewnosod cyfeiriadau yn lle hynny at "dysgu proffesiynol". Gwnaed y newid hwnnw er mwyn i'r geiriad fod yn gyson â'r geiriad a ddefnyddir mewn dogfennau nad ydynt yn rhai deddfwriaethol ac mae'n fwy cyfarwydd i'r proffesiwn addysgu. Mae hwn yn parhau i fod yn derm sy'n cael ei ddeall yn dda gan y proffesiwn addysgu ac mae'n ymddangos yn y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth ("y Safonau") y mae'n ofynnol i bob ANG sy'n dechrau cyfnod sefydlu o fis Medi 2017 weithio tuag atynt. Yn y cyd-destun hwnnw, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol diffinio ystyr dysgu proffesiynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn fodlon i'r corff priodol, sef yr awdurdod lleol, gael disgresiwn ynghylch a fyddai sesiwn yn sesiwn dysgu proffesiynol gan fod rhaid iddo wneud hynny eisoes wrth asesu'r sawl sy'n cael ei sefydlu yn ôl y Safonau. Wrth wneud y penderfyniad hwnnw bydd rhaid i'r corff priodol gydymffurfio â'r egwyddorion cyfraith gyhoeddus arferol a bydd, wrth gwrs, yn cyfeirio at y Safonau wrth wneud hynny.

(ii) Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r pwyllgor (gweler pwynt rhinweddau 1) nad yw'r Rheoliadau yn cael unrhyw effaith ôl-weithredol. Dim ond pan fydd y rheoliadau yn dod i rym y gellir cael cymeradwyaeth gan y corff priodol, er bod hynny mewn perthynas â sesiynau a ddigwyddodd cyn i'r rheoliadau ddod i rym. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn glir bod sesiynau a ddigwyddodd rhwng 26 Mawrth 2020 a'r dyddiad y mae'r Rheoliadau yn dod i rym felly yn cael eu cymeradwyo ar ôl iddynt ddigwydd. Mae'r gymeradwyaeth yn ofynnol cyn y gall y sesiynau hynny gael eu cyfrif tuag at gyfnod sefydlu.